Gweledigaeth Drafnidiaeth Caerdydd

# Beicffordd 4.2


**Beth yr ydym yn ymgynghori arno?**

Mae Cyngor Caerdydd yn ymgynghori ar opsiynau arfaethedig ar gyfer Beicffordd 4.2 a fydd yn cysylltu Rhodfa'r Gorllewin â phentref Llandaf.

Mae cynlluniau'r opsiynau hyn wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon. Mae'r cynlluniau hyn yn lluniau dangosol symlach i ddangos yr aliniadau.

Paratowyd arolwg ar gyfer eich adborth yn https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=161615263155

Byddwn yn defnyddio'r adborth hwn i ddewis opsiynau i'w datblygu i ddylunio ac i ymgynghori ymhellach.




CARDIFF
CAERDYDD

# Beicffordd 4.2

## Cysylltiadau Newydd

Bydd y llwybrau a gynigir yn cysylltu cymunedau â phrif gyrchfannau trwy'r ddinas, yn cynnwys Canol y Ddinas a Bae Caerdydd.
Bydd Beicffyrdd yn darparu llwybrau parhaus y gellir eu defnyddio'n gyfforddus ac yn reddfol, wedi'u gwahanu oddi wrth gerbydau modur a cherddwyr lle bo angen.

Bydd Beicffordd 4 yn darparu cysylltiad teithio llesol allweddol ar gyfer safleoedd cyflogaeth, parthau preswyl, canolfannau addysg a chyrchfannau ymwelwyr yng nghanol a gogledd-orllewin y ddinas. Bydd y llwybr yn cysylltu Canol y Ddinas, Parc Bute, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Eglwys Gadeiriol Llandaf a Phentref Llandaf, sawl ysgol ac yn y pen draw y datblygiadau tai newydd yng ngogledd-orllewin Caerdydd.



## Aer Glân

Mae gennym gynllun Aer Glân sy'n ceisio mynd i'r afael â lefelau NO2 yn y tymor byr, ond rydym eisiau glanhau'r aer a anadlwn yn y ddinas gymaint â phosibl. Mae gwella dewisiadau teithio cynaliadwy a chynyddu nifer y teithiau a wneir trwy deithio llesol (cerdded a beicio) yn rhan allweddol o'r cynllun hwn.



**YNG NGHAERDYDD MAE MANTEISION GWEITHGARWCH CORFFOROL BEICIO YN ATAL 13 O FARWOLAETHAU CYNNAR BOB BLWYDDYN SYDD Â GWERTH IDDO O £46 MILIWN**

Source: Bike Life, 2019

**MAE 32% O DEITHIAU MEWN CAR YN LLAI NA 3KM ARE UNDER 3KM**

Ffynhonnell: Adroddiad Sylfaenol Ymchwil Ymddygiad Teithio Caerdydd


## Teithio Llesol ac Iechyd

Mae nifer y bobl sy'n beicio ac yn cymudo gyda thrên wedi cynyddu ac mae llai yn defnyddio car - ond nid yw'n ddigon. Mae gennym dargedau uchelgeisiol ar gyfer teithio llesol yn y ddinas. Bydd canran y teithiau a wneir trwy ddulliau llesol yn cynyddu'n sylweddol, gyda beicio yn parhau i ddod yn fwy a mwy poblogaidd.
popularity. Mae'r llwybr beicio diogel ac ar wahân hwn yn cyfrannu at yr uchelgais teithio llesol hwn.

**87%**
o'r ymatebion i'r Papur Gwyrdd yn cefnogi rhwydwaith cynhwysfawr o lwybrau beiciau cyfan gwbl ar wahan gyda phrif rwydwaith llwybrau beicio

Gweledigaeth Drafnidiaeth Caerdydd


# Cyd-destun




- Cefnogi'r Cynllun Datblygu Lleol
- Cysylltiad gogledd-orllewin Caerdydd
- Cysylltiadau'r Brifysgol
- Cysylltu'r Ddinas Ehangach
- Lleddfu Tagfeydd
- Cynnig Moddau Amgen

Gweledigaeth Drafnidiaeth Caerdydd

# Beiccffordd



# Opsiwn A

Cyfyngu ar ryngweithio â Rhodfa'r Gorllewin


Cysylltu Canol y Ddinas â Met Caerdydd a Llandaf

Nid oes angen tynnu coed

Cyfle i gysylltu â llwybrau eilaidd

Byddai angen gosod goleuadau

Llai uniongyrchol



# Opsiwn B

Llwybr uniongyrchol i gyrchfan Llandaf

Cysylltu Canol y Ddinas â Met Caerdydd a Llandaf

Cyfyngu ar ryngweithio â Rhodfa'r Gorllewin


Llai o gyfle i gysylltu â llwybrau eilaidd

Lledu strwythurol y llwybr ar fwnd llifogydd ar hyd yr afon

Tynnu coed posibl

Pryderon diogelwch oherwydd bod y llwybr "all-lein"

Angen caniatâd Cyfoeth Naturiol Cymru, y BBC a Chlwb Rhwyfo Llandaf



# Opsiwn C

Cysylltu Canol y Ddinas â Met Caerdydd a Llandaf

Caniatáu cysylltiadau â llwybrau eilaidd

Gellir lledu'r llwybr presennol ar hyd Rhodfa'r Gorllewin

Rhyngweithio trwm â phentref Llandaf

Gwrthdaro posibl â defnyddwyr eraill o amgylch y Clwb Rygbi

Llethr serth a pharcio ceir ar Glos y Gadeirlan



# Opsiwn D

Cysylltu Canol y Ddinas â Met Caerdydd a Llandaf


Defnyddio'r llwybr presennol i mewn i Met Caerdydd

Gwell diogelwch wrth i'r llwybr fynd drwy'r campws

Tynnu coed posibl

Angen cymeradwyaeth Cyfoeth Naturiol Cymru

Byddai angen goleuadau



# Opsiwn E

Cysylltu Canol y Ddinas â Met Caerdydd a Llandaf

Llwybr oddi ar y ffordd

Osgoi bwnd llifogydd

Llai o ryngweithio â Rhodfa'r Gorllewin


Cyfle i gysylltu â llwybrau eilaidd

Tynnu coed posibl

Angen caniatâd Met Caerdydd

Llai uniongyrchol

Byddai angen gosod goleuadau



# Beicffordd 4.2

## Dweud eich dweud

Dyma gam cyntaf y broses ymgynghori. Rydym yn dechrau gyda phum opsiwn arfaethedig ac mae angen eich mewnbwn arnom i benderfynu pa opsiwn y byddwn yn ei ddatblygu i gynllunio camau cyn cylch ymgynghori arall ar y dyluniad manwl.

I gofrestru eich dewis o opsiynau a rhoi adborth, dilynwch y ddolen hon i'n harolwg https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=161615263155

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol, cysylltwch â polisitrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk

CARDIFF
CAERDYDD